

Crynodeb gweithredol

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i fynd i'r afael â gwastraff deunydd pacio. Amcangyfrifir bod defnyddwyr yn y DU yn defnyddio 14 biliwn o boteli diodydd plastig, 9 biliwn o ganiau diodydd a 5 biliwn o boteli gwydr y flwyddyn¹ ac, er bod poteli plastig yn gwbl ailgylchadwy, mae cyfraddau ailgylchu deunydd pacio diweddar yn dangos bod gwelliannau sylweddol i'w gwneud o ran ailgylchu cynwysyddion diodydd, yn enwedig mewn perthynas ag ailgylchu cynhwysyddion 'ar hyd y lle'. At hynny, mae sbwriel cynwysyddion diodydd yn broblem ddifrifol sy'n gofyn am gamau polisi wedi'u targedu i'w datrys; gyda chynwysyddion diodydd untro, neu rannau ohonynt, yn ymddangos yn rheolaidd ymhlith yr eitemau a ganfyddir amlaf ar draethau'r DU.² Ynghyd ag ymwybyddiaeth gynyddol o wastraff plastig yn ein cefnforoedd, mae pwysigrwydd annog pobl i newid eu hymddygiad a rhoi'r gorau i daflu sbwriel wrth y ffynhonnell ac, yn ddelfrydol, hyrwyddo casglu adnoddau gwerthfawr yn amlwg.

Mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Bwyd yng Ngogledd Iwerddon (DAERA) uchelgeisiau mawr ar gyfer y sector adnoddau a gwastraff. Yn ei Chynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd ar gyfer Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i ddiwygio systemau cyfrifoldeb cynhyrchwyr (gan gynnwys rheoliadau ynglŷn â gwastraff deunydd pacio) er mwyn cymell cynhyrchwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am effeithiau amgylcheddol eu cynhyrchion. Mae'r ymgynghoriad hwn yn un o'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Nododd Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Llywodraeth y DU yn glir y gallai cynllun dychwelyd blaendal (DRS) helpu defnyddwyr i ymddwyn mewn ffordd fwy ystyriol wrth waredu cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes.

Nododd Strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010, yr uchelgais i gyflawni dyfodol diwastraff erbyn 2050, gyda charreg filltir yn y canol o ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025. Yn dilyn ei hastudiaeth o'r opsiynau o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer deunydd pacio diodydd a bwydydd allweddol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i ystyried cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal, yn amodol ar ymgynghoriad.

Mae Strategaeth Rheoli Gwastraff Gogledd Iwerddon, a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi amcanion y bwriedir iddynt bennu cyfeiriad tuag at drin gwastraff fel adnodd â gwerth sydd i'w ddefnyddio'n fwy effeithlon, a sicrhau ei fod yn elfen allweddol o'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo economi gylchol carbon isel. Fe'i dilynwyd yn 2015 gan Bapur Opsiynau ar ddymunoldeb ac ymarferoldeb cynllun dychwelyd blaendal yng Ngogledd Iwerddon, a

¹ [Adroddiad y Gweithgor Cymhellion Gwirfoddol ac Economaidd 2018.](#)

² <https://www.mcsuk.org/media/gbbc-2018-report.pdf>.

SWYDDOGOL-SENSITIF

ddaeth i'r casgliad, er bod cynllun dychwelyd blaendal yn ddymunol ac y gallai gynyddu cyfraddau ailgylchu a dylanwadu ar ymddygiad dros faes amgylcheddol ehangach, nad oedd yn ymarferol cyflwyno cynllun yng Ngogledd Iwerddon yn unig. Felly, bydd DAERA bellach yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar y cyd â Chymru a Lloegr, yn amodol ar ymgynghoriad.

Crynodeb o'r cynnwys allweddol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, wrth gydnabod y dylai unrhyw gynllun dychwelyd blaendal fod yn rhan o system gydlynol ledled y DU.

O dan gynllun dychwelyd blaendal câi blaendal ei ychwanegu at bris diodydd mewn cynwysyddion diodydd a gwmpesir gan y cynllun yn y man prynu, y byddai defnyddwyr yn ei hawlio'n ôl wrth dychwelyd eu cynwysyddion diodydd gwag i fannau dychwelyd dynodedig. Os caiff ei gyflwyno, rhagwelwn y bydd cynllun dychwelyd blaendal yn helpu i leihau faint o sbwriel sy'n cael ei daflu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, cynyddu lefelau ailgylchu ar gyfer deunydd perthnasol, cynnig mwy o gyfleoedd i gasglu deunyddiau o ansawdd uchel a hyrwyddo ailgylchu drwy labeli clir a negeseuon i ddefnyddwyr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y gallai'r deunyddiau a gynhwysir mewn cynllun dychwelyd blaendal fod yn boteli plastig PET a HDPE, yn ganiau dur ac alwminiwm ac yn boteli gwydr. Rydym yn cynnig y gellid cynnwys amrywiaeth eang o ddiodydd, gan gynnwys dŵr, diodydd ysgafn, suddion, alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth, pan fyddant yn cael eu gwerthu mewn cynwysyddion sydd wedi'u gwneud o'r deunyddiau hyn, mewn cynllun dychwelyd blaendal. Ni fyddem yn cynnig y dylid cynnwys llaeth (na diodydd wedi'u gwneud o blanhigion megis soia) o fewn cwmpas cynllun dychwelyd blaendal am fod llawer o'r farn ei fod yn gynnyrch hanfodol sydd ond ar gael yn eang mewn cynwysyddion.

Byddai'n orfodol i holl gynhyrchwyr diodydd a fyddai'n cael eu cwmpasu gan gynllun dychwelyd blaendal ymuno â'r cynllun hwnnw a byddai'n ofynnol iddynt gyflawni cyfraddau casglu uchel a bennwyd gan y Llywodraeth. Gan fod yr holl eitemau sy'n cael eu hystyried i'w cynnwys mewn cynllun dychwelyd blaendal yn ddeunydd pacio, byddai angen i'r Llywodraeth sicrhau bod unrhyw system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio ddiwygiedig yn ystyried hyn.

Byddai angen i weithrediad unrhyw gynllun dychwelyd blaendal gael ei reoli gan gorff neu sefydliad canolog, a fyddai'n cynnwys goruchwyllo llifau ariannol a llifau deunyddiau, logisteg, cynnal a chadw seilwaith a chofnodi. Rhagwelwn y caiff y rôl hon ei chyflawni gan gorff nid er elw newydd, sef y Sefydliad Rheoli Blaendal (DMO), a gâi ei sefydlu i reoli'r cynllun dychwelyd blaendal. Câi'r Sefydliad Rheoli Blaendal ei ariannu gan ffioedd a delid gan gynhyrchwyr a refeniw a geid o ddeunydd wedi'i gwmpasu gan y cynllun dychwelyd blaendal a gesglid ac a anfonid i'w ailgylchu. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn ceisio barn ar b'un a ddylid defnyddio blaendaliadau nas hawliwyd yn ôl i rannol ariannu gweithrediad system y cynllun dychwelyd blaendal.

SWYDDOGOL-SENSITIF

Gellid dychwelyd cynwysyddion diodydd o fewn cynllun dychwelyd blaendal naill ai mewn man dychwelyd awtomataidd drwy ddefnyddio Peiriant Gwerthu o Chwith (RVM), a allai gael ei gynnal, er enghraifft, gan fanwerthwyr mawr mewn archfarchnadoedd yn ogystal â'i osod, o bosibl, mewn ardaloedd sy'n denu nifer fawr o bobl megis canolfannau trafniadaeth, neu mewn man dychwelyd â llaw ar safleoedd manwerthwyr bach lle y byddai cynwysyddion yn cael eu dychwelyd dros y cownter. Byddai'r Sefydliad Dychwelyd Blaendal yn talu ffi i'r rhai â manau dychwelyd ar eu heiddo er mwyn ad-dalu unrhyw gostau cysylltiedig iddynt.

Oherwydd y cynnig y dylid rheoli llifau ariannol, byddai angen i gorff monitro a gorfodi fonitro ac archwilio gweithrediadau'r Sefydliad Dychwelyd Blaendal er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n deg ac yn dryloyw.

Mae awdurdodau lleol³ yn rhanddeiliaid pwysig ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal oherwydd y ffordd y mae'n rhyngweithio â'u dyletswyddau o ran casglu gwastraff. Mae'n bosibl y bydd cynllun dychwelyd blaendal yn symud deunyddiau ailgylchadwy â gwerth uwch i ffwrdd o gasgliadau awdurdodau lleol, a fydd yn lleihau eu hincwm o werthu'r deunyddiau hyn yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r deunyddiau hyn. Fel y nodir yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff ar gyfer Lloegr, bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn Lloegr yn cael yr adnoddau i dalu costau net newydd sy'n codi o'r polisiau sy'n deillio o'r Strategaeth, gan gynnwys costau trosglwyddo ymlaen llaw a chostau gweithredu parhaus.⁴ Rydym hefyd yn rhagweld, os bydd defnyddwyr yn dewis peidio â dychwelyd eu cynwysyddion diodydd i un o fannau dychwelyd dynodedig y cynllun dychwelyd blaendal, y byddai deunydd sydd wedi'i gwmpasu gan y cynllun dychwelyd blaendal yn mynd i mewn i gasgliadau wrth ymyl y ffordd, ac mai awdurdodau lleol a fyddai'n cael gwerth y blaendal, petaent yn dewis ei hawlio. Rydym yn ystyried fformiwla ariannu lle y gallai'r Sefydliad Dychwelyd Blaendal dalu swm y blaendal ar gynwysyddion diodydd i awdurdodau lleol heb fod angen iddynt eu dychwelyd yn ffisegol i fan dychwelyd dynodedig.

Mewn cynllun dychwelyd blaendal sy'n gweithio'n dda byddai'n hawdd i ddefnyddwyr dychwelyd cynwysyddion diodydd a chael eu blaendal yn ôl. Gallai hyn olygu bod defnyddwyr yn dewis dychwelyd cynhwysydd diod i'r un lle neu i rywle heblaw'r man lle y gwnaethant ei brynu. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud gwaith er mwyn sicrhau bod y darpariaethau ar gyfer dychwelyd cynwysyddion mor gyfleus â phosibl i ddefnyddwyr. At hynny, hoffem i gynllun dychwelyd blaendal fod yr un mor hygyrch i bawb a sicrhau na fydd yr un defnyddiwr yn ei chael hi'n anodd dychwelyd cynwysyddion diodydd gwag er mwyn cael eu blaendal yn ôl. Felly, drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar sut i sicrhau bod darpariaethau ar waith er mwyn sicrhau y byddai unrhyw ddefnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd dychwelyd cynwysyddion diodydd gwag i fan dychwelyd dynodedig, yn gallu cymryd rhan mewn cynllun dychwelyd blaendal o hyd.

Rydym yn ystyried dau opsiwn ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal, y byddai'r naill a'r llall yn cwmpasu'r un deunyddiau a diodydd ag a nodwyd uchod, ond a fyddai'n wahanol i'w gilydd o ran maint y cynwysyddion diodydd a gwmpesir. Rydym hefyd yn ceisio barn ar b'un a oes dulliau amgen o weithredu y gallem eu hystyried.

³Ar gyfer Gogledd Iwerddon mae cyfeiriadau at "awdurdod lleol" neu "awdurdodau lleol" yn yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at gyngor dosbarth neu gynghorau dosbarth

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/resources-and-waste-strategy-for-england/resources-and-waste-strategy-at-a-glance>.

Ni fyddai'r opsiwn cyntaf, a elwir yn **fodel 'yn cynnwys popeth'**, yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar faint y cynwysyddion diodydd a gwmpesir gan gynllun dychwelyd blaendal. Byddai'n targedau llawer o ddiodydd a roddir ar y farchnad. Byddai'r ail opsiwn, a elwir yn fodel **'ar hyd y lle'**, yn cyfyngu ar y cynwysyddion diodydd a gwmpesir gan y cynllun sy'n llai na 750ml o faint ac a werthir mewn cynwysyddion un fformat. Byddai'r model hwn yn targedu'r diodydd hynny a werthir amlaf i'w hyfed y tu allan i'r cartref (tra bod unigolion 'ar hyd y lle').

Opsiwn arall yn lle cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal fyddai casglu cynwysyddion diodydd o dan system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio ddiwygiedig (yr ymdrinnir â hi yn yr ymgynghoriad cysylltiedig ar ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio).

Crynodeb o'r dadansoddiad

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, rydym yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith sy'n rhoi dadansoddiad llawn o'r ddau opsiwn a gynigir gennym ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal. Mae'r Asesiad o'r Effaith o ryw gymorth o ran darparu asesiad mwy cynhwysfawr o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â rhoi cynllun dychwelyd blaendal ar waith. Mae'r Asesiad o'r Effaith yn cymharu costau economaidd sefydlu a chynnal cynllun dychwelyd blaendal â'r manteision materol sy'n deillio o weithredu'r system. Mae hefyd yn ystyried ac yn nodi gwahanol effeithiau ar randdeiliaid sy'n ymwneud â throsglwyddo refeniw o fewn system y cynllun dychwelyd blaendal; mae hyn yn cynnwys edrych ar yr effeithiau y bydd cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yn eu cael ar Awdurdodau Lleol a'r system ailgylchu wrth ymyl y ffordd. Mae'r Asesiad o'r Effaith yn tybio mai 85% fydd y gyfradd dychwelyd ar gyfer deunydd a gwmpesir gan y cynllun dychwelyd blaendal, gan dybio y bydd y ddau opsiwn yn dechrau yn 2023, ac o'i gymharu â llinell sylfaen 'gwneud dim'. Os na chaiff cynllun dychwelyd blaendal ei gyflwyno, tybir y byddai polisiau ailgylchu eraill, yn enwedig system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio ddiwygiedig ar gyfer y DU a chysondeb o ran casgliadau ailgylchu gwastraff cartrefi a busnesau yn Lloegr, yn mynd yn eu blaen (ymdrinnir â dadansoddiad pellach o hyn yn yr Asesiad o'r Effaith ar ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio).

Ar gyfer **cynllun dychwelyd blaendal sy'n cynnwys popeth**, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ganolog, wedi'i ddisgowntio gyda 2018 fel y flwyddyn sylfaen, yw £7,211 miliwn dros 10 mlynedd gyntaf y cynllun, ac amcangyfrifir mai cyfanswm y budd canolog, wedi'i ddisgowntio hefyd gyda 2018 fel y flwyddyn sylfaen, yw £9,400 miliwn dros 10 mlynedd gyntaf y cynllun. Mae hyn yn rhoi **Gwerth Presennol Net canolog o £2,189 miliwn**.

Ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal **ar hyd y lle**, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ganolog, wedi'i ddisgowntio gyda 2018 fel y flwyddyn sylfaen, yw £2,764 miliwn dros 10 mlynedd gyntaf y cynllun, ac amcangyfrifir mai cyfanswm y budd canolog, wedi'i ddisgowntio hefyd gyda 2018 fel y flwyddyn sylfaen, yw £3,012 miliwn dros 10 mlynedd gyntaf y cynllun. Mae hyn yn rhoi **Gwerth Presennol Net canolog o £249 miliwn**.

Rydym yn cydnabod bod bylchau yn y dystiolaeth yn ein dadansoddiad o hyd, ac rydym yn ceisio cyfraniadau i fynd i'r afael â'r rhain fel rhan o'r ymgynghoriad fel y gellir datblygu

SWYDDOGOL-SENSITIF

dadansoddiad mwy cynhwysfawr ar gyfer Asesiad terfynol o'r Effaith ar unrhyw bolisi ar gynllun dychwelyd blaendal.

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ystyried rhinweddau cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal. Nod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a DAERA yw sicrhau, os caiff cynllun dychwelyd blaendal ei gyflwyno, y bydd yn hawdd i ddefnyddwyr ddychwelyd cynwysyddion diodydd a fydd, yn ei dro, yn cynyddu cyfraddau ailgylchu ac yn lleihau faint o sbwriel sy'n cael ei daflu.